# Proffil Sgiliau Digidol

## Cyflogwyr




## Cwmni

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)

---

## Maint y Cwmni

21,000

---

## Sefydlwyd

1922

---

## Lle mae'r cwmni wedi'i leoli

Ledled y DU

---

## Enghreifftiau o rolau nodweddiadol i raddedigion

Prentisiaethau

Peiriannydd Meddalwedd

Dylunio Profiad Defnyddwyr

Rolau amrywiol ar draws Busnes, Rheoli Prosiectau, Newyddiaduraeth a Chynhyrchu

## Y BBC

## Sgiliau Digidol Hanfodol sy’n Werthfawr yn ein barn ni

**Datrys Problemau Digidol a Chydweithio**

"Digwyddiadau ar ffurf ‘hacathon’ lle mae pobl yn cael eu rhoi mewn timau ac yn gosod rhyw fath o her, fel arfer yn seiliedig ar godio, a bydd gennych gyfanswm penodol o amser ac yna cyflwyno eich ateb ac fel arfer mae yna dîm buddugol felly mae'n ddigwyddiad cydweithredol iawn".

**Lles Digidol**

"Rydym yn annog pobl i geisio dod i mewn i'r gwaith lle bo hynny'n bosibl ac mae Adnoddau Dynol yn cynnal sesiynau iechyd meddwl a lles ac yn enwedig y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. O fewn y timau digidol maen nhw'n gwneud mwy o bethau o’r enw '10% o’r amser' lle argymhellir i bobl gamu i ffwrdd o’u gwaith bob yn ail ddydd Gwener a threulio diwrnod neu hanner diwrnod yn dysgu sgil newydd a allai fod yn sgil ddigidol neu'n gwrs neu unrhyw beth arall!”

---

### Pa sgiliau digidol y mae'r BBC yn chwilio amdanynt yn eu gweithwyr a sut gall myfyrwyr ddangos y sgiliau hynny?

"Mae’n dibynnu ar y rôl mewn gwirionedd, y peth pwysig yw bod yn wybodus am dueddiadau cyfredol, er enghraifft bod yn ymwybodol ac â gwybodaeth am feddalwedd gyfredol ac ieithoedd [codio]. Ein cwestiwn allweddol yw "dywedwch wrthym pam mai chi sydd orau ar gyfer y rôl", a dyna fyddai'r cyfle gorau i arddangos eich gwybodaeth a'ch sylfaen o sgiliau. Felly, soniwch am unrhyw brosiectau rydych wedi bod yn rhan ohonynt, yn enwedig prosiectau traethawd hir gan eu bod yn aml ar flaen y gad o ran sgiliau digidol. Ond er mor bwysig yw sgiliau digidol mae’r rhain yn sgiliau gallwn ddysgu pan fo rhywun yn y rôl felly mae sgiliau ac ymddygiadau personol eraill fel cydweithio yn bwysig iawn".

---

### Pa awgrymiadau fyddech chi’n ei roi i fyfyrwyr ddatblygu neu wella'r sgiliau hynny?

"Darllenwch y disgrifiad swydd ac os oes rhywbeth nad ydych wedi'i brofi o'r blaen defnyddiwch rywbeth fel LinkedIn Learning, Pluralsight neu YouTube hyd yn oed a cheisiwch wedyn weithio ar y sgiliau hynny eich hun er mwyn cyd-fynd â'r profiad y maen nhw'n chwilio amdano. Nid yw’n beth drwg cydnabod nad oes gennych brofiad o rywbeth cyn belled ag y gallwch ddweud rydw i’n barod i'w ddysgu".

### Beth nad ydych chi'n gweld digon ohono o ran y sgiliau digidol hyn?

"Yr hyn dw i’n sylwi’n bersonol yw ansawdd gwirioneddol y cais yn hytrach na'r sgiliau penodol sydd ar goll. Mae'n teimlo bod gennym ni bobl sy'n gadael y brifysgol wedi gwneud nifer o bethau anhygoel, ond does ganddyn nhw ddim profiad o ysgrifennu cais a heb gael unrhyw help.”

[Gwefan Gyrfaoedd y BBC]